Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau

# Pam mae corsydd yn bwysig?

## Mawndiroedd yw storfa garbon naturiol fwyaf y byd.

Mae mawndiroedd yn ymestyn dros lai na 3% o arwyneb y Ddaear, ond credir eu bod yn cynnwys dwywaith cymaint o garbon â choedwigoedd y byd. Oherwydd hyn, maent yn hollbwysig o ran amddiffyn rhag effeithiau newid hinsawdd.

## Mae corsydd yn cynnig lleoedd i anifeiliaid bori.

Os cânt eu rheoli'n ofalus, gellir gweld gwartheg, defaid a cheffylau'n pori ar gorsydd. Hefyd, gellir torri'r brwyn sy'n tyfu ar gorsydd ar gyfer creu deunydd gorwedd i dda byw.

## Mae mawnogydd yn bwysig yn hanesyddol, yn archaeolegol ac yn ddiwylliannol.

Gan fod modd i fawnogydd fod yn filoedd o flynyddoedd oed, maent yn cynnwys haenau o ddata a thystiolaeth hanesyddol. Trwy archwilio rhan o'r mawn, gall gwyddonwyr ddweud sut arferai'r dirwedd fod, sut fath o anifeiliaid a arferai fyw yn yr ardal, a beth oedd amodau'r tywydd.

## Gall corsydd helpu i roi hwb i dwristiaeth a hamdden.

Mae'r mannau agored a gynigir gan gorsydd yn lleoedd perffaith ar gyfer dianc rhag miri a mwstwr trefi a dinasoedd, ac maent yn denu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn. Yn aml, bydd yr ymwelwyr hyn yn gwario arian ar lety a bwyd, gan roi hwb i'r economi leol.

## Gall corsydd helpu i wella ansawdd dŵr.

Yn aml, lleolir corsydd yn yr ucheldiroedd, yn rhannau uchaf dalgylchoedd afonydd lle ceir glaw trwm ac aml. Pan fo'r corsydd mewn cyflwr da, mae'r dŵr sy'n llifo ohonynt i gronfeydd dŵr yfed fel arfer yn lanach, diolch i blanhigion arbennig o'r enw migwyn (sphagnum), sy'n hidlo'r dŵr.

## Mae corsydd yn bwysig o ran gwella iechyd a llesiant pobl.

Mae pobl yn ymweld â chorsydd i ymlacio, anturio a dadflino, gan fwynhau tawelwch yr eangderau agored.

## Mae corsydd yn darparu bwyd i bobl.

Mae modd dod o hyd i fwyar duon, eiringwyllt, eirin ysgaw, llus a llugaeron yn tyfu'n wyllt ar gorsydd.

## Gall cyforgorsydd helpu i atal perygl llifogydd.

Mae cyforgorsydd yn cynnig gwasanaeth unigryw yn y frwydr yn erbyn llifogydd. Mae'r mawn yn arafu llif y dŵr glaw, gan helpu i atal llifogydd ymhellach i lawr yr afon.

## Mae corsydd yn cynnig cynefin i doreth o fywyd gwyllt.

Nid oes llawer o faetholion i'w cael mewn corsydd ac maent yn gynefin hollbwysig i blanhigion, adar a phryfetach arbennig – dim ond ar y cynefinoedd arbennig hyn y mae llawer o'r planhigion a'r creaduriaid yma'n byw neu'n bridio.